

Ffydd a Bywydau Du yn Bwysig



Yn enw'r eglwysi mae'n cynrychioli y mae Cytûn: Eglwysi Ynghyd yng Nghymru wedi gosod gofal am ymfudwyr, gweithio ar ran rheiny sy'n ceisio lloches yng Nghymru, annog cynulleidfaoedd ethnig lleiafrifol ac ehangu cyfartaledd a hawliau dynol gyda phartneriaid allweddol a Llywodraeth Cymru fel blaenoriaeth. Y mae Aled Edwards, Prif Weithredwr Cytûn yn adrodd am sefydliadau sy'n ymrwymedig i hyrwyddo cydraddoldeb i bawb

Dechreuodd y gwaith gwirioneddol pan roddwyd chwilwyr lloches yng ngharchar Caerdydd yn 2001. Yn dilyn ymosodiad terfysgol 9:11 yn Efrog Newydd galwodd y diweddar Rhodri Morgan yr arweinwyr ffydd at ei gilydd. Arweiniodd y deinamig hwnnw at greu'r Fforwm Cymunedau Ffydd cyfredol. Dros y blynyddoedd, y mae trafodaethau wedi llacio tensiynau posib rhwng cymunedau ac wedi symud ymlaen gynlluniau a ysbrydolwyd gan eglwysi megis sefydlu Cymru fel Cenedl Lloches.

Yr oedd y perthnasau cryf hyn yn fyw iawn ar ddechrau Cloi'r Covid-19 wrth i arweinwyr allweddol a swyddogion geisio sicrhau bod manau o addoli yn dilyn y cyfyngiadau. Yn anad dim, yr oeddem yn ymwybodol o'r angen i achub bywydau. Gwnaethpwyd ymdrechion i sicrhau bod arferion ffydd yn cael eu cydnabod yn ystod angladdau. Rhoddwyd cynlluniau ar waith pe bai rhif y meirw dros ben yn tyfu yn broblem dros gymunedau amrywiol Cymru. Diolch fyth, ni chyrhaeddwyd yr amgylchiadau gwaethaf hynny yng Nghymru, ond daeth yn amlwg yn ystod y cloi bod cymunedau duon, Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig yn dioddef nifer anghyfartal o farwolaethau.



Drwy weithio gyda'n hapddalwyr, gan gynnwys arweinwyr Cristnogol, sefydlodd Llywodraeth Cymru nifer o brosesau allweddol. Roeddent yn cynnwys archwilio rhesymau meddygol a chymdeithas-economaidd dros nifer marwolaethau pobl ddu, Asiaidd ac ethnig lleiafrifol (BAME). Cefais yr anrhydedd o wasanaethu fel aelod o is-grŵp yr Athro Emmanuel Ogbonna. Bydd y grŵp yn parhau i fonitro'r cynnydd a wneir gan y Comisiwn Hawliau Dynol a arweinir yng Nghymru gan Parch. Ruth Coombs. Y mae Ruth yn aelod o Rwydwaith Cyfiawnder Hiliol Cytûn sy'n rhoi orolwg dros waith cyfiawnder hiliol y mudiad. Wrth ymateb i farwolaeth George Floyd, tyfodd cysylltiadau da rhwng partneriaid yn Eglwysi Ynghyd ym Mhrydain ac Iwerddon ac yn enwedig gyda Chomisiwn Mudwyr yn Ewrop.

Gweithiodd Cytûn gyda Gweithredu dros Pobl a Ddisodlwyd (DPIA) yn ystod y cloi er mwyn sicrhau bod teuluoedd ymgeiswyr lloches yn derbyn data i'w ffonau a chliniaduron. Y mae DPIA wedi cychwyn Cynllun Hyfforddi Meddygon Ymfudwyr ers 2002. Gall fod y cynllun hwn wedi galluogi dros 80 o feddygon ymfudwyr a ail-hyfforddwyd i weithio i GIG fel meddygon cofrestredig GMC.